# BETH YW PRENTISIAETH?

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

## 8 rheswm pam fod prentisiaeth yn DDEWIS DOETH

### #1 BYDD PRENTISIAETH YN RHOI HWB I DY YRFA

Ar gael i bawb 16+ oed (heb uchafswm oedran). Mae prentisiaid gan amlaf yn cael eu cyflogi o leiaf 30 awr yr wythnos ac yn ennill a dysgu wrth weithio.

### #2 MAE PRENTISIAID YN ENNILL CYFLOG

Bydd pob prentis yn ennill cyflog sy'n cyfateb o leiaf â'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol i brentisiaid, sydd yn £6.40* yr awr yn bresennol. Ond mae nifer o gyflogwyr yn talu mwy!

Cymera olwg ar y llefydd gwag ar y Gwasanaeth Prentisiaethau Gwag.

### #3 MAE PRENTISIAETHAU YN CYMRYD LLEIAFSWM O 12 MIS

Bydd y rhan fwyaf o brentisiaethau yn cymryd rhwng 1-4 blynedd i gwblhau. Mae'n dibynnu ar lefel a model darparu'r brentisiaeth.

### #4 MAE PRENTISIAETHAU YN AMRYWIO O LEFEL 2 I LEFEL 7

Mae prentisiaethau ar gael ar lefelau sy'n gyfystyr â TGAU hyd at radd, gan gynnwys bagloriaeth a gradd meistr. Golyga hyn bod modd ennill gradd drwy wneud prentisiaeth.

### #5 DYDY PRENTISIAID DDIM YN TALU AM HYFFORDDIANT

Bydd holl gostau prentisiaeth yn cael eu talu gan y cyflogwr a/neu Llywodraeth Cymru fel nad oes rhaid i'r prentis dalu.

### #6 BYDD PRENTISIAETHAU YN TREULIO'R RHAN FWYAF O'U HAMSER YN GWEITHIO

Bydd y rhan fwyaf o oriau gwaith prentis yn cael eu treulio yn gweithio, yn ennill profiad yn y gweithle, dysgu sgiliau newydd a gweithio â chydweithwyr.

### #7 MAE PRENTISIAETHAU YN DERBYN TÂL AM HYFFORDDIANT Y TU ALLAN I'R GWAITH

Treulir amser cyflogedig y prentis i ffwrdd o'r gwaith yn dysgu i ennill sgiliau a chymwysterau gwerthfawr.

### #8 MAE NIFER O BRENTISIAETHAU AR GAEL

Mae prentisiaethau ar gael ym mron i bob diwydiant, gyda rhai newydd yn cael eu hysbysebu'n wythnosol ar draws ystod eang o rolau.

**Caiff yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol i brentisiaid ei adolygu bob Ebrill.*

**Am ragor o wybodaeth, chwilia**

**PRENTISIAETHAU CYMRU**

**DEWIS DOETH**

Prentisiaethau
Apprenticeships